

<u>CYFARFOD</u>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<u>DYDDIAD</u>	14 Medi 2023
<u>TEITL</u>	Cynllun Digidol 2023-28
<u>PWRPAS</u>	Cyflwyno'r Cynllun Digidol (Atodiad 1) yn ei ffurf drafft i bwrpas blaen-graffu ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar gynnwys arfaethedig y rhaglen waith
<u>AELOD CABINET</u>	Cynghorydd Ioan Thomas
<u>SWYDDOGION</u> <u>CYSWLLT</u>	Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a Chyllid

1. CEFNDIR

- 1.1.** Nid oes gan y Cyngor gynllun ffurfiol cyfredol ar gyfer datblygu ei wasanaethau digidol. Daeth cyfnod y "Strategaeth Ddigidol" blaenorol i ben yn 2018 ac er bod Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion wedi'i fabwysiadu yn y cyfamser, nid oes cynllun corfforaethol wedi'i lunio yn ystod yr un cyfnod.
- 1.2.** Adnabuwyd yr angen i sicrhau Cynllun Digidol a fyddai'n cofnodi gweledigaeth a rhaglen waith cysylltiedig wrth baratoi'r Cynllun Cyngor cyfredol. Mae'r angen i fabwysiadu a gweithredu Cynllun Digidol wedi ei nodi fel blaenoriaeth gwella o fewn maes "Gwynedd Effeithlon" yn y Cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar y 7 o Fawrth eleni.
- 1.3.** Mae Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i ffurfio ac er mai'r Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n gyfrifol am wireddu'r prosiect yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Bwrdd yn cadw trosolwg ac yn cynnig her yn ogystal â chefnogaeth tu hwnt i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol - hynny mewn cydnabyddiaeth o ba mor allweddol yw datblygiadau yn y maes yma o ran ein gallu fel Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- 1.4.** Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyllid yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect. Mae pedwar is-grŵp wedi'u ffurfio yn bresennol o dan arweiniad y swyddogion a nodir isod, tra bo pumed is-grŵp eto i'w ffurfio ar gyfer gweithredu ar ddatblygiadau digidol ym maes y gweithlu. Mae cynrychiolaeth ar yr is-grwpiau hyn o 'fysg holl adrannau'r Cyngor.

Gwydnwch – Gwyn Jones, Rheolwr Systemau Isadeiledd
Cyswllt Cwsmer – Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg a YGC
Gwybodaeth a Data – Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Gweinyddiaeth a Systemau Busnes – Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg
Gwybodaeth a Chyllid

Ymhellach, mae'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Bwrdd, yn ogystal â'r Pennaeth Addysg (sydd â swyddogaeth benodol i sicrhau cydlyniad rhwng y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'r hyn sydd ar y gweill ar lefel corfforaethol).

- 1.5.** O dderbyn adborth aelodau'r Pwyllgor Craffu, bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn mynd ati i ddarparu drafft terfynol o'r Cynllun Digidol am y pum mlynedd nesaf gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet ar y 7 o Dachwedd eleni er mwyn ei fabwysiadu.